CYMDEITHASEG

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Cymdeithaseg y gallu i:

- Lunio cwestiynau cymdeithasegol gwybodus ac ymchwilio iddynt.
- Cymhwyso safbwyntiau a chysyniadau damcaniaethol allweddol i fywyd cymdeithasol.
- Dadansoddi, asesu a chyflwyno gwybodaeth gymdeithasegol empirig.
- Nodi a rhoi sylwadau ar strategaethau a dulliau ymchwil gwahanol.
- Cynnal gwaith ymchwil cymdeithasegol mewn modd cychwynnol.
- Cyflawni a chyflwyno gwaith ysgolheigaidd.
- Deall arwyddocâd moesegol cwestiynau cymdeithasegol.
- Deall perthnasedd gwybodaeth gymdeithasegol o ran polisïau cymdeithasol, cyhoeddus a dinesig.
- Beirniadu a gwerthuso tystiolaeth.
- Gwerthfawrogi cymhlethdod ac amrywiaeth sefyllfaoedd cymdeithasol.
- Asesu rhinweddau damcaniaethau ac esboniadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.
- Casglu, adalw a chyfosod gwybodaeth.
- Cyflwyno dadleuon rhesymegol a dehongli tystiolaethau a thestunau.
- Ystyried eich gwybodaeth gynyddol.
- Defnyddio sgiliau dysgu ac astudio.
- Cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy ddulliau a chyd-destunau amrywiol.
- Defnyddio technegau ystadegol a meintiol eraill a sgiliau adalw gwybodaeth mewn perthynas â ffynonellau gwybodaeth sylfaenol ac eilaidd.
- Defnyddio sgiliau technoleg gwybodaeth.
- Defnyddio sgiliau cynllunio a rheoli amser, a gweithio mewn grwp.

Trosolwg o Gymdeithaseg

Mae cymdeithaseg yn ymdrin â datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd cymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar gysylltiadau unigolion, grwpiau a sefydliadau. Mae'n ceisio deall sut mae cymdeithasau, sefydliadau ac arferion o bob math wedi dod i fod, sut y trefnir nhw ar hyn o bryd, a sut allant newid yn y dyfodol. Mae'n ystyried nodweddion, dealltwriaethau ac arferion unigolion o safbwynt eu perthynas ag eraill. Mae Cymdeithaseg yn Wyddor Wyddonol greiddiol sy'n bwydo nifer o feysydd astudio eraill sy'n berthnasol i'r byd dynol ond sy'n ymwneud ag agweddau cymdeithasol ar ryngweithio dynol.

Mae graddedigion Cymdeithaseg yn dilyn gyrfaoedd amrywiol. Mae nifer yn cael eu denu i swyddi sy'n canolbwyntio ar yr heriau a'r gofynion sydd ar gymdeithas. Mae'r dewisiadau'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau lles, llywodraeth, cynghori, elusennau a'r sector gwirfoddol. Gall graddedigion fod yn swyddog codi arian i elusen, gweithiwr datblygu cymunedol, cynghorwr, darlithydd, swyddog tai, athro, swyddog prawf, ymchwilydd cymdeithasol, gweithiwr cymdeithasol ac yn gynghorydd hawliau lles.

Ffynhonnell: CEI 2006

CIHE